BWRDD
GWASANAETHAU
CYHOEDDUS
CWM TAF
PUBLIC
SERVICES
BOARD

# Cwm Taf: Adroddiad Blynyddol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol 2018-2019

## Adroddiad Blynyddol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol


| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | |
| 2. Aelodaeth Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod | |
| 3. Strwythur Llywodraethu | |
| 4. Nodau Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig, a Thrais Rhywiol Cwm Taf | |
| 5. Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 1 | |
| 6. Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 2 | |
| 7. Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 3 | |
| 8. Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 4 | |
| 9. Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 5 | |
| 10. Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 6 | |
| 11. Cynllun Gweithredu 2019–2020 | |
| 12. Atodiad A – Aelodaeth | |
| 13. Atodiad B – Strwythur llywodraethu | |

# Cyflwyniad

**Croeso i Adroddiad Blynyddol Cyntaf Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf**

Yn 2015 pasiodd Llywodraeth Cymru Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015

(1) Diben y Ddeddf yma yw gwella:

a) trefniadau ar gyfer atal trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
b) trefniadau ar gyfer amddiffyn dioddefwyr trais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
c) cymorth i'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan drais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Roedd y Ddeddf yn nodi ei bod yn ofynnol i awdurdodau a byrddau iechyd lleol (ynghyd ag awdurdodau perthnasol) ddatblygu strategaeth ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol leol ar y cyd a darparu adroddiad o ddiweddariadau'n flynyddol yn unol â'r strategaeth yma. Yng Nghwm Taf, mae'r cyfrifoldeb dros ddatblygu a monitro'r strategaeth yma wedi'i ddirprwyo i Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf, sy'n bartneriaeth o awdurdodau perthnasol a darparwyr gwasanaethau lleol.

Yn unol â'r Ddeddf, mae rhaid i strategaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf:

a) bennu amcanion y mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn eu hystyried yn cyfrannu, os byddan nhw'n llwyddo, at gyflawni diben y Ddeddf hon;
b) nodi'r cyfnodau o amser y mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu cyflawni'r amcanion penodedig;
c) nodi'r camau y mae'r Awdurdod Lleol a'r Bwrdd Iechyd Lleol yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcanion penodedig;
d) Mae modd i Awdurdod Lleol a Bwrdd Iechyd Lleol bennu amcanion penodol.

Er mwyn hwyluso'r gwaith monitro yng Nghwm Taf, mae'r amcanion, y camau gweithredu a'r cyfnodau o amser wedi'u hymgorffori mewn adroddiad sy'n cael ei gyhoeddi bob tri mis. Caiff unrhyw faterion neu risgiau sy'n codi mewn perthynas â chyflawni'r cynllun eu cyflwyno i'r Bartneriaeth Cymunedau Diogel (PDC) er mwyn iddi wneud penderfyniad neu weithredu ymhellach. Mae hyn yn helpu'r PDC i gymryd perchnogaeth o adroddiad Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar lefel strategol ac yn rhoi arweiniad i'r Grŵp Llywio ar gyflawni'r cynllun.

Mae'r adroddiad yma'n amlygu'r gwaith y mae'r Grŵp Llywio wedi'i wneud yn ystod 2018/19, er mwyn ceisio sicrhau bod pobl Cwm Taf yn ddiogel rhag yr holl niwed sy'n gysylltiedig â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol. Mae'r Grŵp Llywio yn effro iawn mai dim ond trwy bartneriaeth gref y mae modd cyflawni hyn, gyda phob asiantaeth y grwpiau llywio yn cydweithio'n rhagweithiol ac yn gynhyrchiol.

Mae aelodau Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yn parhau i chwilio am gyfleoedd i ddatblygu a gwella diogelu ymhellach yng Nghwm Taf ac maen nhw'n cydnabod mai dim ond trwy gydweithredu effeithiol y mae modd cyflawni hyn. Felly, bydd cydweithio ag asiantaethau partner, Llywodraeth Cymru a Bwrdd Diogelu Cwm Taf yn parhau yn y dyfodol, er mwyn gwella arfer da ac i rannu syniadau.

Bydd y Grŵp Llywio yng Nghwm Taf hefyd yn ymdrechu i ymgysylltu â defnyddwyr y gwasanaethau, boed yn blant neu'n oedolion ac yn cynnig cyfleoedd iddyn nhw gymryd rhan yn weithredol yn agenda Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol.



**Llofnod: Paul Mee, Cadeirydd Partneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf, Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf**

## Aelodaeth Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol

Gweler Atodiad A

## Strwythur Llywodraethu

Gweler Atodiad B

## Nodau Strategol Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf

Roedd Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i Awdurdodau Lleol a'u partneriaid perthnasol ddatblygu strategaeth leol ar y pwnc. Fe wnaeth Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf gydymffurfio â'r gofyniad yma a datblygodd ei nodau i fod yn gyson â'r Strategaeth Genedlaethol VAWDASV a diwallu anghenion lleol.

Yn ystod 2018–19, dyma oedd amcanion Cwm Taf:

**Nod 1: Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cwm Taf.**

**Nod 2: Gwella'r ddarpariaeth addysg o ran perthnasoedd iach a chydraddoldeb rhywedd.**

**Nod 3: Dal y troseddwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a'u cefnogi nhw i newid eu hymddygiad.**

**Nod 4: Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr.**

**Nod 5: Cynyddu nifer y gwasanaethau arbenigol o ansawdd uchel ar draws rhanbarth Cwm Taf.**

**Nod 6: Cryfhau'r gwaith ar y cyd ar draws y sector i ddeall a diwallu anghenion ein cymunedau ni, gan gynyddu cynaliadwyedd a gallu'r sector.**

## Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 1

**Cynyddu ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar draws poblogaeth Cwm Taf.**

Drwy gydol y flwyddyn mae rhanbarth Cwm Taf wedi cymryd rhan mewn nifer o achlysuron i godi ymwybyddiaeth o Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ymhlith y boblogaeth gyffredinol.

Er mwyn codi ymwybyddiaeth ymysg gweithwyr proffesiynol a'r cyhoedd, comisiynwyd Mercury Theatre Cymru i berfformio eu drama am gam-drin domestig o'r enw "35 times" mewn amryw o leoliadau ledled Cwm Taf.

Ym mis Gorffennaf, defnyddiodd y gwasanaeth cam-drin domestig, Merthyr Tudful Mwy Diogel, Ymgyrch Rhuban Gwyn er mwyn codi ymwybyddiaeth a chyrraedd cynulleidfa oedd yn bennaf wrywaidd yn achlysur Rasys Beiciau Modur Aberdâr. Roedd modd i wasanaeth Merthyr Tudful Mwy Diogel hyrwyddo neges ymgyrch y Rhuban Gwyn ar y cyd â marchnata darpariaethau'r gwasanaeth lleol. Roedd cyfleoedd yn ogystal i drafod dynion fel dioddefwyr cam-drin domestig. Yn ystod yr achlysur, llofnododd dros 300 o ddynion yr addewid

https://www.facebook.com/SMTCYMRU/ gweler 21 Gorffennaf, 2018

Yn dilyn Diwrnod y Rhuban Gwyn ar 25 Tachwedd, daeth 16 diwrnod o weithredu, â gweithgarwch aml-asiantaeth yn codi ymwybyddiaeth o gam-drin domestig ar draws y rhanbarth. Roedd hyn yn cynnwys:

- Achlysuron o lofnodi addewidion;
- Trafodaethau gydag aelodau'r Cyngor;
- Roedd logo'r rhuban gwyn i'w weld ar rai o gerbydau fflyd y Cyngor;
- Fe wnaeth darparwyr gwasanaethau drydar yr 16 neges Twitter gwreiddiol gan SafeLives;
- Roedd darparwyr gwasanaethau hefyd yn defnyddio Facebook i hyrwyddo eu achlysuron.

Drwy gydol y flwyddyn mae'r sefydliadau sy'n gysylltiedig â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi hyrwyddo'r ymgyrchoedd Byw Heb Ofn ar

draws Cwm Taf gan gynnwys 'Dyma fi' a 'Paid Cadw'n Dawel'. Lledaenu ymgyrchoedd cenedlaethol gan ddefnyddio sawl cyfrwng gan gynnwys E-bost, Twitter a Facebook. Yn ogystal, mae darparwyr gwasanaethau Cwm Taf wedi cymryd rhan yn natblygiad ymgyrchoedd cenedlaethol.

O ran codi ymwybyddiaeth o drais rhywiol, mae Llwybrau Newydd wedi cymryd rhan mewn nifer o achlysuron gan gynnwys stondinau yn achlysur Cegaid o Fwyd Cymru a Ffair y Glas yng Ngholeg y Cymoedd.

Roedd Llwybrau Newydd yn weithgar yn ystod wythnos Ymwybyddiaeth o Drais Rhywiol ym mis Chwefror 2019, gan ddefnyddio cyfryngau digidol a chorfforol i hyrwyddo ymwybyddiaeth yng Nghwm Taf. Buon nhw hefyd yn cymryd rhan mewn Diwrnod Ymwybyddiaeth Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant (CSE) ym mis Mawrth 2019, yr Ymgyrch Rhuban Gwyn ym mis Tachwedd 2018 a Diwrnod Gwrth-Gaethwasiaeth ym mis Hydref 2018.

Er mwyn rhoi gwell dealltwriaeth i asiantaethau partner o wasanaethau a phrosesau trais rhywiol, trefnodd Llwybrau Newydd gyfle i asiantaethau partner, Carfan Canolbwyntio ar Ddioddefwyr a Chymorth i Fenywod ymweld â'r Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol.

## Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 2

### Gwella'r ddarpariaeth addysg er mwyn hybu perthnasoedd iach a chydraddoldeb rhywedd

Ar hyn o bryd mae gan bob ysgol yng Nghwm Taf ei dull unigryw ei hun o ddarparu addysg ynghylch perthnasoedd iach a Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ond mae pob un yn gweithio i gyflawni'r naw elfen o Ddull Ysgol Gyfan. Mae pob ysgol yng Nghwm Taf wedi cael cynnig y rhaglen Spectrwm, a gafodd ei chomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'i chyflwyno gan Hafan Cymru. Mae llawer o ysgolion hefyd yn comisiynu gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lleol i gyflwyno agweddau ar berthnasoedd iach yn aml mewn perthynas â materion sy'n effeithio ar yr ysgol yna. Yn ardal Merthyr y rhanbarth, cyflwynodd Merthyr Tudful Mwy Diogel raglen perthynas iach i

| | |
|---|---|
| Nifer yr unigolion y gweithiwyd â nhw | 1407 |
| Nifer y sesiynau grŵp | 106 |

Fel y soniwyd uchod, mae Hafan Cymru wedi bod yn cyflwyno'r rhaglen Spectrwm ar draws y rhanbarth yn 2018–19 ac wedi cyflwyno'r sesiynau canlynol:

**Merthyr Tudful**

- Cyfanswm nifer y sesiynau = 21
- Cyfanswm nifer y disgyblion mewn sesiynau = 278
- Cyfanswm nifer y staff yn sesiynau'r disgyblion = 21

**Rhondda Cynon Taf**

- Cyfanswm nifer y sesiynau = 114
- Cyfanswm nifer y disgyblion mewn sesiynau = 1344
- Cyfanswm nifer y staff yn sesiynau'r disgyblion = 87
- Cyfanswm y staff mewn sesiynau hyfforddiant i staff = 30

## Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 3

**Dal y troseddwyr i gyfrif am eu gweithredoedd a'u cefnogi nhw i newid eu hymddygiad.**

Mae cydnabyddiaeth yng Nghwm Taf bod y gefnogaeth i droseddwyr yn ei ddyddiau cynnar ac er mwyn cynnig cefnogaeth gyflawn i droseddwyr, mae angen buddsoddiad sylweddol yn narpariaeth y gwasanaeth. O ganlyniad, mae mapio anghenion a datblygiad darpariaeth y gwasanaeth wedi dod yn rhan o dasg gomisiynu ehangach ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (gweler nod 5).

Yng Nghwm Taf mae rhai darpariaethau yn bodoli'n bresennol ar gyfer troseddwyr. Mae prosiect DRIVE yn gweithio gyda throseddwyr cam-drin domestig y mae eu dioddefwyr wedi cael eu hystyried yn risg uchel.
Mae DRIVE yn targedu troseddwyr cam-drin domestig er mwyn gwella cyflawniadau i ddioddefwyr a phlant. Yr amcanion allweddol yw:

- lleihau nifer y troseddwyr cyfresol o gam-drin domestig;
- lleihau nifer y dioddefwyr sy'n dioddef ar sawl achlysur a'r rhai o'r newydd;
- lleihau'r niwed sy'n cael ei achosi i ddioddefwyr a phlant;
- ymyrryd yn gynharach i ddiogelu teuluoedd sy'n byw gyda cham-drin domestig sy'n agored i lefel uchel o niwed.

Mae gan wasanaeth DRIVE ddwy elfen ar gyfer gweithio gyda throseddwyr:

I. Cefnogi troseddwyr i newid eu hymddygiad;
II. Amharu ar gyfleoedd y troseddwyr i ymddwyn yn gamdriniol.

Dechreuodd Drive fel prosiect peilot am 2 flynedd ac yn ddiweddar mae wedi cwblhau ei werthusiad ail flwyddyn. Gweler y ddolen atodedig am grynodeb gweithredol y gwerthusiad 2 flynedd.

http://driveproject.org.uk/wp-content/uploads/2019/05/Drive-Year-2-UoB-Evaluation-Executive-Summary.pdf

Mae Canolfan Oasis (gwasanaeth y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig), sy'n cael ei ariannu a'i rheoli gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, hefyd yn darparu Rhaglen Trais Domestig i droseddwyr. Mae'r rhaglen yma'n cael ei chynnig i'r troseddwyr hynny sy'n dymuno newid eu hymddygiad ond mae mynediad i'r rhaglen yn wirfoddol.

Mae Rhaglenni Trais Domestig â'u pryd ar newid ymddygiad i bobl sy'n defnyddio trais a cham-drin tuag at eu cyn-bartneriaid / partner. Prif nod y Rhaglen Trais Domestig yw cynyddu diogelwch a lles goroeswyr a'u plant nhw;

Yng Nghwm Taf mae'r rhain fel arfer yn cael eu rhedeg fel grwpiau bach, fodd bynnag yn ystod y blynyddoedd diwethaf mae'r rhaglen wedi esblygu i gynnwys gwaith ymyrryd gyda throseddwyr mewn lleoliad un-wrth-un ac ar adegau, gwaith ymyrraeth rhwng cyplau.

Rhaid i'r gwaith gynnig cyfle realistig i droseddwyr gyflawni newid cynaliadwy drwy:

- eu helpu i roi'r gorau i fod yn dreisgar ac yn ymosodol;
- eu helpu i ddysgu sut i ymgysylltu â'u partneriaid mewn ffordd barchus a chyfartal;
- eu helpu i ddatblygu ffyrdd di-gam-drin o ddelio ag anawsterau yn eu perthynas ac ymdopi â'u dicter.

Mae cefnogaeth gan y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn cyd-fynd â'r ymyriad â throseddwyr trais domestig a cham-drin. Pwrpas cymorth y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Domestig yw sicrhau na chaiff diogelwch y rhai sy'n agored i niwed ei beryglu gan yr ymyriad a bod cymorth yn cael ei gynnig iddyn nhw i sefydlu eu bywydau heb gamdriniaeth.

Yn ystod 2018–19 dyma wnaeth y Rhaglen Trais Domestig:

- Cynnig cefnogaeth i 29 o droseddwyr;
- Cynnig cefnogaeth i 11 o ddioddefwyr;
- Cynnig ymyrraeth un-wrth-un i 16 o bobl;
- Cynnig ymyrraeth grŵp ac un-wrth-un i 13 o bobl;
- Aeth 21 o bobl i'r rhaglen yn wirfoddol;
- Cwblhaodd 8 o bobl y rhagen yn llawn;
- Roedd 6 o bobl yn deall effaith eu hymddygiad;
- Roedd 6 o bobl yn teimlo bod eu hymddygiad negyddol wedi lleihau.

Yng Nghwm Taf, fel mewn rhanbarthau eraill, mae Llys Arbenigol Trais Domestig (SDVC) yn ymgynnull yn wythnosol ac mae'n un o'r mecanweithiau sy'n cael ei ddefnyddio i ddal troseddwyr cam-drin domestig i gyfrif.

Mae Llysoedd Arbenigol Trais Domestig yn rhan o ddull cydweithredol o fynd i'r afael â chymhlethdodau cam-drin domestig. Mae'r dull yn gosod y Llys a'r System Cyfiawnder Troseddol yn rhan o ymateb cymunedol cydgysylltiedig i gam-drin domestig ac mae'n cyfeirio at system gyfan, yn hytrach nag adeilad y Llys neu awdurdodaeth yn unig.

Gan weithio gyda'i gilydd, mae Llysoedd arbenigol yn helpu i sicrhau diogelwch y dioddefwr trwy nodi, olrhain ac asesu risg cam-drin domestig, cefnogi dioddefwyr a rhannu gwybodaeth yn effeithiol. Mae tystiolaeth bod y dull yma'n cynyddu

canlyniadau diogel i oroeswyr, yn helpu i gynyddu euogfarnau ac yn lleihau cyfraddau athreuliad a thynnu'n ôl ar gyfer yr achosion yma.

Yng Nghwm Taf yn 2018–2019, fe wnaeth y Llys Arbenigol Trais Domestig gwblhau 920 o achosion; o'r rhain cafodd 729 ganlyniad llwyddiannus. Mae hyn yn cyfateb i 79% o achosion a gwblhawyd.

## Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 4

### Galluogi gweithwyr proffesiynol i ddarparu ymatebion effeithiol, amserol a phriodol i ddioddefwyr a goroeswyr

Yn rhanbarth Cwm Taf, un o'r prif ddulliau o sicrhau bod staff yn darparu ymyriadau effeithiol ac amserol yw drwy gyflwyno grwpiau 1–6 Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol ar gyfer Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; grŵp 1 yw'r grŵp mwyaf gan ei fod yn cwmpasu holl staff yr awdurdodau perthnasol.

Ers cychwyn ei weithredu, mae **13,645** o aelodau staff o Gyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg wedi cwblhau hyfforddiant grŵp 1, er gwaethaf anawsterau sylweddol wrth weithredu. Y prif anhawsterau yw nad oes gan nifer fawr o weithwyr fynediad at gyfrifiaduron, e-bost neu'r rhyngrwyd felly does dim modd iddyn nhw ymgymryd ag e-ddysgu. Dydy'r ffigurau lleol ddim ar gael ar gyfer Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru na Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru gan eu bod nhw'n adrodd yn uniongyrchol i Lywodraeth Cymru.

Yn 2018–19, daeth Cwm Taf yn ail ardal beilot ar gyfer gweithredu grwpiau Gofyn a Gweithredu 2 a 3 o'r FfGC. Yn ystod misoedd cynnar y flwyddyn, roedd y prif ganolbwynt ar hyfforddi hyfforddwyr a fyddai'n cyflwyno'r cyrsiau Gofyn a Gweithredu ac ym mis Tachwedd dechreuwyd cyflwyno'r hyfforddiant grŵp 2 Gofyn a Gweithredu.

Yn gyfan gwbl, fe wnaeth 22 o unigolion gwblhau cwrs grŵp 2 Hyfforddi'r Hyfforddwr (TTT). O'r rhain, cafodd 17 yr achrediad angenrheidiol er mwyn cyflwyno Gofyn a Gweithredu (grŵp 2). Ar hyn o bryd mae 14 o hyfforddwyr ar gael i gyflwyno'r rhaglen. Ers mis Tachwedd 2018, mae 343 o weithwyr proffesiynol wedi'u hyfforddi.

O ran grŵp 3, Hyrwyddwyr Gofyn a Gweithredu. Fe wnaethon ni ond llwyddo i recriwtio 1 person yn unig i gwrs grŵp 3; dydy'r unigolyn yma ddim wedi derbyn achrediad felly does yna ddim cyrsiau hyrwyddwyr grŵp 3 wedi'u cyflwyno.

Mae cyflwyno'r model hyfforddiant fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru wedi bod yn heriol ac o bosibl yn anghynaladwy.

O ran grŵp 4 a 5, mae pob darparwr gwasanaeth wedi bod wrthi'n sicrhau bod eu staff yn derbyn hyfforddiant priodol. Gweler y tabl isod ar gyfer 2018–19.

| Sefydliad | Grŵp 4 | Grŵp 5 |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Cymorth i Fenywod | 5 | 2 |
| Merthyr Tudful Mwy Diogel | 3 | 1 |
| Llwybrau Newydd | 14 | |
| Llamau | | |
| Oasis – Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | | 1 |

Mae uwchsgilio gweithwyr proffesiynol mewn gofal iechyd sylfaenol yn rôl ar gyfer y prosiect Adnabod ac Atgyfeirio i Wella Diogelwch (IRIS)

Gan weithio'n agos gyda gofal sylfaenol, mae Prosiect IRIS yn anelu at gynyddu nifer y dioddefwyr a throseddwyr cam-drin sy'n cael eu hadnabod a gwella'r cymorth maen nhw'n eu derbyn. Mae'r gwasanaeth yma wedi'i gomisiynu gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf ac yn darparu hyfforddiant a chefnogaeth i'r 38 o feddygfeydd teulu ledled Cwm Taf.

Mae pob meddygfa yn derbyn hyfforddiant clinigol arbenigol ar gyfer meddygon teulu a staff y feddygfa gan gynnwys hyfforddiant ychwanegol ar gyfer staff rheng flaen a'r gweinyddwyr. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddarparu gwybodaeth ar sut i nodi cam-drin domestig trwy ymchwiliad clinigol a sut i ymateb o ran asesu risg ar unwaith, atgyfeiriad, cofnodi a chyfrinachedd.

Unwaith y bydd pob meddygfa wedi derbyn yr hyfforddiant llawn, byddan nhw'n dod yn ganolfan iechyd sydd ag ymwybyddiaeth o gam-drin domestig. Mae hyn yn cael ei gydnabod a'i hyrwyddo i gleifion trwy arddangos posteri a chardiau gwybodaeth, gan eu nodi fel rhai sy'n effro i gam-drin domestig. Mae meddygfeydd hefyd yn derbyn ffurflenni atgyfeirio a gwybodaeth am lwybrau gofal ar gyfer goroeswyr benywaidd, goroeswyr gwrywaidd a throseddwyr. **35/38** yw nifer y meddygfeydd sy'n gwbl effro i IRIS, h.y. wedi cwblhau'r 3 sesiwn hyfforddi. **495** yw nifer yr aelodau o staff y meddygfeydd sydd wedi cwblhau hyfforddiant IRIS ar draws Cwm Taf.

Mae codi ymwybyddiaeth o Adolygiadau Dynladdiadau Domestig (DHR) hefyd wedi helpu i osod materion am Drais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol VAWDASV ar flaen y gad o ran arfer bob dydd. Ym mis Mawrth 2019, cynhaliodd Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf a Bwrdd Diogelu Cwm Taf achlysur ar y cyd i ledaenu canfyddiadau Adolygiad Dynladdiadau Domestig cyntaf Cwm Taf. Daeth 40 o ymarferwyr o nifer o sefydliadau i'r achlysur. Roedd adborth o'r diwrnod yn cynnwys y canlynol: -

- Mae sefydliadau'n dal i weithio ar eu pennau eu hunain felly does dim modd iddyn nhw weld y darlun ehangach;
- Does dim digon o gydweithio rhwng gwasanaethau Diogelu Oedolion a Cham-drin Domestig;
- Mae yna ddiffyg dealltwriaeth o sut y mae modd i 'allu' gael ei effeithio gan reolaeth orfodol neu ddibyniaeth ar gyffuriau neu alcohol;
- Mae diffyg gwybodaeth o ran sut i ddiogelu unigolion sydd ddim yn ymwneud â'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu;
- Mae diffyg eglurder ynghylch rhannu gwybodaeth a phryd y mae'n dderbyniol rhannu heb ganiatâd.

Wrth ddatblygu'r strategaeth, ystyriodd Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol lunio set leol o ddangosyddion perfformiad craidd roedd modd i bob darparwr gwasanaeth ei dilyn. Fodd bynnag, gan fod darparwyr gwasanaethau eisoes yn darparu nifer o adroddiadau perfformiad i gyllidwyr a chomisiynwyr, roedd yn teimlo braidd yn feichus ychwanegu haen arall o fonitro perfformiad. O ganlyniad, penderfynodd y grŵp Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol aros i ddangosyddion Cenedlaethol gael eu cyflwyno.

## Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 5

### Cynyddu nifer y gwasanaethau arbenigol o ansawdd uchel sydd ar draws rhanbarth Cwm Taf

Yn gyson drwy gydol y flwyddyn yma, mae Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi gweithio ar ei ddull o gomisiynu, gan adeiladu ar y gwaith yr oedd wedi'i ddechrau gyda'r asesiad anghenion poblogaeth y flwyddyn flaenorol. Y bwriad cyffredinol oedd sicrhau bod gwasanaethau;

- Ar gael i ddiwallu'r angen a nodwyd;
- Yn gyson ar draws y rhanbarth;
- Ddim yn dyblygu darpariaethau sydd eisoes ar gael;
- Yn effeithiol ac yn cynnig gwerth da am arian.

Yn 2018–2019 fe ddechreuodd y gwaith, a chafodd ei gwblhau, ynghylch mapio gwasanaethau. Roedd y gwaith mapio yn cynnwys nodi sefydliadau cyllido ac ariannu, dadansoddiad o ddiffygion y gwasanaeth a nodi modelau arfer gorau. Wrth ymgymryd â'r tasgau hyn, mae Grŵp Comisiynu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol wedi cyfeirio at Ganllawiau Comisiynu Llywodraeth Cymru.

Daeth Grŵp Comisiynu Trais yn erbyn Menywod Cwm Taf i sefyllfa lle roedd yn deall pa wasanaethau oedd eu hangen a pha wasanaethau doedd ddim ar gael, ond yn ei chael yn anodd datblygu model gwasanaeth yr oedd modd iddo'i gomisiynu, o ystyried y cyfyngiadau roedd wedi'u profi. Mae'r cyfyngiadau hyn yn cynnwys sawl cronfa fyrdymor fach a gafodd eu darparu gan gomisiynwyr gan ddefnyddio gwahanol feini prawf neu gyflawniadau gwahanol. Mae'r darparwyr trydydd sector yn dod â chyllid ychwanegol sylweddol i mewn, ond mae'r adnodd yma ynghlwm wrth y sefydliad sy'n cael ei ariannu ac mae'n cael ei ddarparu am reswm penodol. Does dim modd symud yr adnoddau ychwanegol hyn i ddiwallu'r anghenion lleol a nodwyd.

Er mwyn ceisio datrys y materion yma, defnyddiodd Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf Grant Datblygu Rhanbarthol Llywodraeth Cymru i gyflogi ymgynghorydd annibynnol i wneud argymhellion ar gyfer ffordd ymlaen. Yn ystod mis Ionawr a mis Mawrth 2019, gweithiodd yr ymgynghorydd i gwblhau'r tasgau gafodd eu comisiynu, gydag adroddiad yn ofynnol erbyn mis Ebrill 2019.

Bwriad Grŵp Llywio Cwm Taf yw defnyddio'r adroddiad yma a'i argymhellion fel man cychwyn ar gyfer comisiynu gwaith yn 2019–2020.

Fel rhan o'r gweithgaredd dan y nod yma, roedd gofyn i holl wasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghwm Taf fabwysiadu set gydnabyddedig o safonau craidd. Hyd yn hyn, mae Cymorth i Fenywod RhCT wedi cyflawni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymorth i Fenywod Cymru, mae Canolfan Oasis RhCT wedi'i hail-achredu yn Arweinydd SafeLives (Leading Light), mae carfan yr uwch-reolwyr wedi ymrwymo i ddilyn Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymorth i Ferched a'r Gwasanaeth Parch ac mae Llamau wedi cyflawni'r canlynol:

- Tystysgrif ISO9001 ein safonau Sicrhau Ansawdd;
- Ardystiad CHAS (Cynllun Asesu Iechyd a Diogelwch Contractwyr) ar gyfer ein Safonau Iechyd a Diogelwch;
- Tystysgrif Seiber Hanfodol a Mwy ar gyfer diogelwch seiber / TG;
- Statws canolfan gymeradwy Agored Cymru.

Mae Llwybrau Newydd yn gweithio i gyflawni dwy safon sector-benodol – Safonau Gwasanaeth Cenedlaethol yr Ymddiriedolaeth Goroeswyr a'r Safonau Ansawdd ar gyfer gwasanaethau'r Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (trwy LimeCulture). Yn ogystal, mae'n gweithio tuag at gwblhau Marc Ansawdd Elusen Dibynadwy (PQASSO gynt) ac ail-achredu ein gwobr Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr.

Wrth gymryd rhan yn y gwaith o ddatblygu dull comisiynu, gwella sgiliau eu staff a chynnal rhaglenni safonau craidd, mae darparwyr lleol wedi parhau i gynnig gwasanaethau allweddol yng Nghwm Taf gan gynnwys y llochesau, carfanau Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol a Domestig a chymorth fel y bo angen.

Yn 2018–19 roedd llochesau ym Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf yn cefnogi cyfanswm o 208 o ddefnyddwyr y gwasanaeth.

RhCT = 146
Merthyr Tudful = 262
Deilliannau cadarnhaol = 194

Cymorth fel y bo angen: cefnogwyd 234 o unigolion
RhCT = 76
Merthyr Tudful = 158
Deilliannau cadarnhaol = 192

**Roedd gwasanaethau'r Cyngorydd Annibynnol ar Drais Domestig yn cwmpasu RhCT a Merthyr Tudful**

| Pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn uniongyrchol – DS Mae Oasis ond yn delio â risg uchel | | |
|---|---|---|
| **Grŵp Targed** | **Dadansoddiad yn ôl risg uchel / canolig / isel** | **Cyfanswm nifer y buddiolwyr yn y cyfnod adrodd yma** |
| **Merched** | **Uchel**<br>**Canolig** | **1042**<br>**228** |
| **Dynion** | **Uchel**<br>**Canolig** | **128**<br>**12** |
| **CYFANSWM** | | **1410** |

| Mae pobl sy'n dweud eu bod wedi cael yr wybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen arnyn nhw i gael mynediad at wasanaethau a chymorth ac mae modd iddyn nhw wneud dewisiadau mewn modd gwybodus | | |
|---|---|---|
| **Grŵp Targed** | **Dadansoddiad yn ôl risg uchel / canolig / isel** | **Cyfanswm nifer disgwyliedig y buddiolwyr yn 2018 – 2019** |
| **Merched** | **Uchel**<br>**Canolig** | **795**<br>**339** |
| **Dynion** | **Uchel**<br>**Canolig** | **130**<br>**63** |
| **CYFANSWM** | | **1327** |

Yn ystod 2018–19, darparodd Llwybrau Newydd wasanaeth cwnsela ar gyfer 187 o oedolion a 18 o blant a phobl ifanc yn ardal Cwm Taf. Fodd bynnag, yn yr un cyfnod, derbyniodd y gwasanaeth gyfeiriadau cwnsela ar gyfer 532 o oedolion ac 88 o blant a phobl ifainc.

Cefnogodd y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol (Llwybrau Newydd) 463 o gleientiaid yn ystod y cyfnod yma (342 o oedolion / 121 o blant a phobl ifainc) ac roedd cyfanswm o 298 o atgyfeiriadau newydd (217 o oedolion / 81 o blant a phobl ifainc).

Dangosodd y mesurau canlyniad y canlynol:

- Roedd 90% o gleientiaid y Cynghorydd Annibynnol ar Drais Rhywiol yn teimlo eu bod nhw'n derbyn cefnogaeth dda tra roedden nhw yn y Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol;
- Roedd 99% o gleientiaid cwnsela (oedolion) yn teimlo bod y gefnogaeth roedden nhw'n ei derbyn yn fuddiol;
- Roedd 90% o gleientiaid cwnsela (oedolion) yn teimlo eu bod yn gallu ymdopi'n well;
- Roedd 95% o gleientiaid cwnsela (oedolion) yn teimlo'n llai unig;
- Roedd 81% o gleientiaid cwnsela (oedolion) yn teimlo'n llai isel eu hysbryd;

- Roedd 81% o gleientiaid cwnsela (oedolion) yn teimlo bod eu hyder wedi cynyddu.

## Beth rydyn ni wedi'i gyflawni? – Nod 6

**Cryfhau'r gwaith ar y cyd ar draws y sector i ddeall a diwallu anghenion ein cymunedau ni, gan gynyddu cynaliadwyedd a gallu'r sector.**

Fel rhan o Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf a gweithio ar y cyd, mae gan yr holl ddarparwyr gwasanaeth fynediad at y gwaith comisiynu a wnaed gan gynnwys yr asesiad o anghenion y boblogaeth a'r dadansoddiad o fylchau. Felly, mae pawb yn effro i ba agweddau o ran darpariaeth y gwasanaeth y mae rhaid i'r rhanbarth eu gwella.

O ganlyniad, mae Cymorth i Fenywod RhCT wedi helpu i wella hygyrchedd gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr benywaidd a gwrywaidd cam-drin domestig a rhywiol gan ddarparu Canolfan Rhondda Mwy Diogel newydd.

Roedd angen gwasanaeth oherwydd y ffaith bod 1198 o'r 3070 o atgyfeiriadau derbyniodd Cymorth i Fenywod RhCT yn 2017–2018, yn byw yng Nghymoedd y Rhondda. Roedd 48% o'r atgyfeiriadau yma ond â mynediad at gymorth dros y ffôn oherwydd cyfyngiadau ariannu sy'n gysylltiedig â thai neu gyfyngiadau daearyddol.

Roedd y ddarpariaeth hygyrch agosaf i ddioddefwyr wedi'i lleoli 8 milltir i ffwrdd ar gyfartaledd, a oedd yn creu rhwystr sylweddol i ddioddefwyr gyda mynediad cyfyngedig neu ddim mynediad at gludiant neu ofal plant.

Ar ôl ymgynghori â phartneriaid strategol lleol a rhanbarthol, gwnaeth Cymorth i Fenywod RhCT gais i Gynllun Grant Cyfalaf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Llywodraeth Cymru i sicrhau cyllid i brynu cyfleuster yng nghanol Cymoedd y Rhondda, gan alluogi gwasanaethau arbenigol i fod ar gael i bawb sy'n cael eu heffeithio, waeth beth fo'u cod post.

Arweiniodd rhannu'r asesiad o anghenion ac ati at Ferthyr Tudful Mwy Diogel i fod yn effro i'r bwlch yn y gwasanaethau sy'n cael ei ddarparu i blant sy'n agored i neu'n dyst i gam-drin domestig ynghyd â diffyg ymyriadau a oedd yn dwyn ynghyd y teulu fel uned i gael cymorth.

Llwyddodd Merthyr Tudful Mwy Diogel i sicrhau cyllid grant gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau er mwyn darparu'r Rhaglen i Deuluoedd.

Mae Rhaglen i Deuluoedd yn cael ei darparu ar draws rhanbarth Cwm Taf ac mae'n cynnig cymorth arbenigol i deuluoedd sy'n profi cam-drin domestig sy'n dymuno aros gyda'i gilydd. Gan fabwysiadu dull teulu cyfan, bydd y gwasanaeth yn darparu ymyriadau a rhaglenni therapiwtig, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch, rheoli risg, newid ymddygiad, effaith cam-drin domestig ar blant, profiad niweidiol yn ystod plentyndod, cyfathrebu parchus, ymlyniad a gwytnwch emosiynol. Nod y gwasanaeth yw galluogi'r teulu i fyw gyda'i gilydd yn ddiogel neu gael eu cefnogi i wahanu'n gyfeillgar.

O ran cyllid grant presennol, mae comisiynwyr a darparwyr wedi cael y dasg o ddod o hyd i ffyrdd creadigol o ddefnyddio'r grantiau. O ganlyniad, mae'r cyllid Cefnogi Pobl, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, wedi'i ddefnyddio'n arloesol yn RhCT i ddarparu prosiect DIOGEL.

Nod y prosiect sy'n cael ei ddarparu gan Gymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf yw cynyddu'r cyfleoedd sydd ar gael i ddioddefwyr trais Domestig drwy weithredu strategaethau atal ac ymyrraeth gynnar. Mae'r prosiect yn cyflawni hyn mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:

- Cefnogaeth / eiriolaeth un-wrth-un (tymor byr);
- Sesiynau sgiliau bywyd gan gynnwys rhaglen ymwybyddiaeth cam-drin domestig ac adeiladu hyder;
- Llwybrau atgyfeirio uniongyrchol i asiantaethau cymorth eraill;
- Mynediad at gyngor cyfreithiol a chymorthfeydd rheoli dyledion.

Yn 2018–19 derbyniodd prosiect DIOGEL 867 o atgyfeiriadau. Ymgymerodd y menywod a fu'n ymwneud â'r prosiect â'r ymyriadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Atgyfeiriadau | 867 |
| Darparu cymorth a chefnogaeth | 792 |
| Asesu risg a chynllunio diogelwch | 226 |
| Rhaglenni perthnasoedd iach | 398 |
| Rhaglen Ryddid | 139 |
| Pecyn cymorth adfer | 27 |
| Pecyn cymorth 'Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod' | 22 |
| Magu hyder | 42 |
| Camu tuag at Ragoriaeth | 21 |
| Cwrs pendantrwydd | 47 |
| Therapi Celf | 100 |

Mae gwerthusiad defnyddwyr y gwasanaethau yma'n dangos y canlynol:

- Mae 100% yn teimlo'n fwy gwybodus am wasanaethau cam-drin domestig lleol;
- Roedd 86% yn teimlo mwy o hyder a hunan-barch;

- Dywedodd 96% y byddai modd iddyn nhw adnabod arwyddion rhybudd cynnar o ymddygiad camdriniaethol mewn perthynas yn y dyfodol.

Arweiniodd pryder Llwybrau Newydd am les cleientiaid a oedd yn aros am gyfnodau hir ar gyfer apwyntiadau cwnsela at y sefydliad i fuddsoddi adnoddau sylweddol a dulliau newydd mewn 'Prosiect Rhestr Aros' rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2019.

Roedd y Prosiect Rhestr Aros yn cynnwys nifer o fentrau gan gynnwys cysylltu â phob cleient ar y rhestr aros i asesu risg a nodi unrhyw anghenion uniongyrchol, cyflogi Cwnsleriaid Sesiynol i gynnig cwnsela â chyfyngiad amser i nifer cynyddol o gleientiaid a chynnig cyfle i gleientiaid fynychu grŵp seic-addysgiadol wrth aros am eu dyraniad i gwnsela un-wrth-un. O ganlyniad i'r mentrau hyn, roedd y rhestr aros ar ddiwedd cyfnod 2018–19 wedi gostwng o 270 i 99 o gleientiaid.

Mae Llwybrau Newydd hefyd wedi bod yn rhan o'r cydweithio aml-asiantaeth rhwng comisiynwyr Iechyd a'r Heddlu a Chomisiynwyr yr Heddlu a Throseddau sy'n gweithio tuag at wasanaeth rhanbarthol mwy cynaliadwy ar gyfer Canolfannau Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol. Mae'r cam cyntaf, gan ddatblygu model rhanbarthol a chytuno ar fodel ariannol, bron â chael ei gwblhau ac mae cynnig y bydd wedyn yn datblygu i weithredu fesul cam.

Ar gyfer rhanbarth Cwm Taf, bydd hyn yn golygu colli cyfleusterau meddygol fforensig yn yr ardal, gydag archwiliadau ar gyfer pawb sydd wedi dioddef trais neu ymosodiad rhywiol difrifol yn mynd i Ganolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Caerdydd, o Ebrill 2020 o bosibl. Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Caerdydd fydd yr unig ganolfan o'i math yn rhanbarth De Cymru sy'n gallu cynnig archwiliadau pediatrig i blant ar ôl ymosodiad rhywiol, ond mae bwriad cynllunio i gytuno ar fodel pediatrig a fydd yn cynnwys archwiliadau i blant yn Abertawe hefyd. Felly bydd gan boblogaeth Cwm Taf fynediad i naill ai Canolfan Caerdydd neu Abertawe ar gyfer archwiliadau fforensig plant.

Bydd Canolfan Atgyfeirio Ymosodiadau Rhywiol Merthyr yn dod yn 'adain' o dan y model newydd, gyda dim ond cyfweliadau a gwasanaethau cymorth dilynol yn cael eu cynnig yn y lleoliad hwnnw.

Drwy gydol 2018–19, gweithiodd is-grwpiau o Fwrdd Diogelu Cwm Taf a Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf mewn partneriaeth i gryfhau'r aliniad rhwng prosesau Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg a Diogelu Oedolion. O ganlyniad i'r angen am aliniad agosach, mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth bellach yn ystyried a yw pob dioddefwr ac sy'n cael ei gyfeirio at Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg hefyd yn oedolyn mewn perygl ac a ddylai pob oedolyn sydd mewn perygl hefyd fod yn destun iddo. Mae'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth wedi dod yn fwy cyson yn ei brosesau cofnodi fel bod modd i'r garfan nodi, nid yn unig y math penodol o gam-drin y mae'r unigolyn wedi'i brofi / mewn perygl o ddioddef ond hefyd a fyddai'r cam-drin yna'n bodloni'r diffiniad o gam-drin domestig. Oherwydd y gwaith yma, mae modd i garfan yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth ymateb yn well i anghenion cymhleth oedolion sy'n agored i niwed sy'n profi cam-drin domestig.

Er mwyn sicrhau ansawdd gwaith yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth mewn perthynas â cham-drin domestig, cynhaliwyd archwiliad o 15 o achosion enghreifftiol. Nododd yr

archwiliad yma, ar gyfer oedolion sy'n agored i niwed (yn y sampl yma), bod 20% o ddioddefwyr yn ddynion ac er bod dros draean o ddioddefwyr wedi eu cam-drin gan bartneriaid agos, cafodd dau draean eu cam-drin gan aelodau eraill o'r teulu, gan gynnwys traean yn cael eu cam-drin gan eu plant oedd bellach yn oedolion. Roedd mwy na 50% o'r sampl dros 70 oed.

Mae cofnodi cam-drin domestig yn fwy cyflawn a chywir, ynghyd â chanfyddiadau'r archwiliad yn golygu bod modd defnyddio'r data a gasglwyd i nodi'r rhai sy'n fwyaf agored i niwed a sicrhau bod adnoddau wedi'u targedu'n briodol.

Drwy gydol y flwyddyn mae Grŵp Sicrhau Ansawdd Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg wedi gweithio ar dasg a osodwyd gan Bartneriaeth Cymunedau Diogel Cwm Taf. Roedd aelodau'r grŵp eisiau gwybod a yw trafodaethau dyddiol Hwb Diogelu Amlasiantaeth a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg yn effeithiol. Er mwyn penderfynu a oedd y prosesau'n effeithiol, gwnaeth y grŵp y tasgau canlynol:

- Gofyn i sefydliad Byw'n Ddiogel wneud arsylwadau o'r ddwy broses;
- Comisiynu Byw'n Ddiogel i ymgymryd â hyfforddiant cynrychiolwyr Cynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg;
- Cynnal gweithdy i ganfod barn y cyfranogwyr;
- Cynnal archwiliad Hwb Diogelu Amlasiantaeth o brosesau'r Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg.

Ar ôl cwblhau'r tasgau yma, roedd teimlad doedd y naill broses na'r llall ddim mor effeithiol ag y gallen nhw fod. Mae modd i'r ddwy broses fod yn fwy effeithiol os ydyn nhw'n:

- Canolbwyntio mwy ar 4 nod y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg;
    - Diogelu dioddefwyr;
    - Diogelu plant;
    - Diogelu gweithwyr proffesiynol; **a**
    - Rheoli ymddygiad troseddwyr.
- Nodi a mynegi'r risgiau'n fwy eglur;
- Cynhyrchu camau i liniaru pob risg a nodwyd;
- Rhannu gwybodaeth sy'n berthnasol ac yn gymesur yn unig;
- Lleihau nifer yr achosion sy'n cael eu trafod yn y Gynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg;
- Creu mwy o gysondeb o ran proses yn nhrafodaethau dyddiol Hwb Diogelu Amlasiantaeth a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg MARAC (yn unol â'r Hwb Diogelu Amlasiantaeth, dylid canolbwyntio ar y pwyntiau uchod);
- Sicrhau bod y rhai priodol ac angenrheidiol yn bresennol i gyfrannu at y camau diogelwch.

O ganlyniad, rhoddwyd y dasg i'r grŵp SA i ddatblygu'r newidiadau angenrheidiol i gynyddu effeithiolrwydd. Bydd y gwaith yma'n cael ei ddatblygu yn 2019–20.

| Cynllun Gweithredu 2019–20 |
|---|

Drwy gyflwyno cynllun gweithredu Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol 2018–19, mae nifer o gamau newydd wedi dod i'r amlwg. Bydd y rhain yn cael eu dwyn ymlaen i gynllun gweithredu 2019–20. Mae'r rhain yn cynnwys y canlynol:

- Sefydlu is-grŵp ymgysylltu, cyfranogi a chyfathrebu o ran Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghwm Taf i ddarparu gweithgarwch ymgyrchu lleol wedi'i gynllunio a'i gydlynu;
- Gweithio tuag at ymagwedd gyson tuag at gyflwyno codi ymwybyddiaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar draws ysgolion Cwm Taf. Y man cychwyn ar gyfer y cam gweithredu yma fydd seilio gweithgarwch codi ymwybyddiaeth presennol;
- Codi proffil y Rhaglen Trais Domestig er mwyn annog mwy o fynediad i'r rhaglen, yn enwedig ymhlith y gwasanaethau i blant a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- Adeiladu ar y cynnydd a gyflawnwyd drwy gyflwyno'r hyfforddiant Gofyn a Gweithredu, trwy annog pobl i gofrestru ar gwrs grŵp 3 Gofyn a Gweithredu i hyfforddwyr;
- Defnyddio'r adborth o'r achlysur dysgu 'DHR' i ddatblygu mecanweithiau i fynd i'r afael â'r bylchau gwybodaeth a nodwyd;
- Mabwysiadu a gweithredu'r Dangosyddion Perfformiad Craidd Cenedlaethol ar ôl iddyn nhw gael eu cyhoeddi;
- Defnyddio adroddiad ac argymhellion yr ymgynghorydd annibynnol i ddatblygu'r dull comisiynu;
- Darparu gwasanaethau o Ganolfan Rhondda Mwy Diogel sydd newydd ei sefydlu;
- Cyflawni'r Prosiect Ymyrraeth Gynnar i Deuluoedd sydd newydd ei gomisiynu a rhannu arfer dysgu da;
- Cryfhau'r gefnogaeth sy'n cael ei chynnig a'i darparu i'r rhai sy'n agored i niwed gan y system ddiogelu;
- Datblygu camau gweithredu i gryfhau trafodaethau dyddiol yr Hwb Diogelu Amlasiantaeth a Chynhadledd Amlasiantaeth Asesu Risg ar drais Domestig fel eu bod yn dod yn fwy effeithiol ac er mwyn sicrhau canlyniadau mwy cadarnhaol.

## Atodiad A

**Aelodaeth Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol**

Mae'r sefydliadau canlynol yn cael eu cynrychioli ar Grŵp Llywio Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Cwm Taf (ar gyfer rhai sefydliadau mae nifer o adrannau'n cael eu cynrychioli).

| Sefydliad | Uwchadrannau |
|---|---|
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful | Carfan Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd |
| | Cefnogi Pobl |
| | Materion Tai |
| | Addysg |

| | |
|---|---|
| | Cymunedau Diogel |
| | Diogelu |
| Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Iechyd a Diogelwch y Cyhoedd, a Gwasanaethau'r Gymuned. |
| | Cefnogi Pobl |
| | Addysg |
| | Cymunedau Diogel |
| | Materion Tai |
| | Gwasanaethau Oedolion a Gwasanaethau Diogelu |
| | Gwasanaethau i Blant |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf | Diogelu |
| Heddlu De Cymru | |
| Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru | |
| Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru | |
| Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol | |
| Llwybrau Newydd | |
| Merthyr Tudful Mwy Diogel | |
| BAWSO | |
| Cymorth i Fenywod RhCT | |
| Llamau | |
| Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddau | |

## Atodiad B

### Strwythur Llywodraethu

